# Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2021

## Adroddiad ar Effaith Covid-19 Cam 6

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
35/2021
DYDDIAD CYHOEDDI:
MAWRTH 18, 2021



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

ISBN Digidol: 978-1-80195-054-1

© Hawlfraint y Goron 2021

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2021: Adroddiad Effaith COVID-19 Cam 6.

Anthony Lydall, Strategic Research and Insight

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:
Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau
Croeso Cymru
Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymu

This document is also available in English.
Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

ISBN: 978-1-80195-054-1
18 Mawrth 2021
© Hawlfraint y Goron 2021

Mae'r cynnwys i gyd ar gael o dan Fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth, ac eithrio lle nodir fel arall.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

**Cynnwys**

1. Prif Ganfyddiadau .......... 2
2. Cefndir a Methodoleg .......... 4
3. Effaith COVID-19 Hyd yn Hyn .......... 5
4. Archebion ar gyfer y Dyfodol .......... 11
5. Goroesi a Rhagolwg .......... 21

# 1. Prif Ganfyddiadau

**Dwy ran o dair yn cymryd archebion ymlaen llaw**

1.1 Mae tua dau o bob tri (65%) o fusnesau yn cymryd archebion ymlaen llaw, gan wybod nad oes dyddiad wedi'i gadarnhau eto i'w sector ailagor. Mae cymryd archebion yn fwyaf amlwg yn y sector hunanddarpar – mae'r rhan fwyaf (78%) yn ei wneud.

**Mae archebion ymlaen llaw ar gyfer eleni yn llawer llai na'r arfer ar hyn o bryd**

1.2 Dywed un o bob deg (10%) o weithredwyr sy'n cymryd archebion fod ganddynt fwy o archebion ymlaen llaw na'r arfer yr adeg hon o'r flwyddyn, ac mae gan 23% tua'r lefel arferol.

1.3 Fodd bynnag, mae tua dwy ran o dair (67%) yn is na'r arfer. O'r rhain, mae 90% yn nodi, heb anogaeth, fod 'pobl yn wyliadwrus ynglŷn ag archebu' fel rheswm. Mae rhai'n credu mai'r rheswm dros hyn yw nad oes gan Gymru 'fap trywydd' clir o ddyddiadau ailagor. Mae'n ymddangos bod yr ansicrwydd hwn yn effeithio ar lefelau archebu adeg y Pasg, sef cyfnod prysur cyntaf y flwyddyn yn aml i'r diwydiant twristiaeth. Ar hyn o bryd, ymhlith y busnesau sy'n cymryd archebion, mae'r ddeiliadaeth a archebwyd ar gyfartaledd ar gyfer mis Ebrill oddeutu 21%.

**Fodd bynnag, mae'r haf yn edrych yn fwy cadarnhaol, ac mae rhai'n disgwyl cynnydd mawr mewn twristiaeth ddomestig**

1.4 Ymhlith y busnesau a oedd yn cymryd archebion, mae'r ddeiliadaeth a archebwyd ar gyfartaledd ar gyfer mis Awst oddeutu 42%. Ymhlith y gweithredwyr sydd â lefelau uwch o archebion ymlaen llaw ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn, dywed 63% heb anogaeth fod 'pobl yn daer i gael mynd am seibiant', a dywed 39% fod ymwelwyr o'r DU yn archebu yng Nghymru yn lle tramor. Mae'n ymddangos bod archebu arosiadau hirach yn duedd sy'n dod i'r amlwg.

1.5 Yn sgil profiad blaenorol yn ystod y pandemig hwn, mae rhai gweithredwyr yn disgwyl llif sydyn o ymholiadau cyn gynted ag y cyhoeddir dyddiadau ailagor. Ond fel y dangosodd arolwg baromedr yr haf diwethaf, bydd gallu'r diwydiant i fanteisio ar unrhyw gynnydd yn y galw domestig, pe bai'n digwydd, yn dibynnu i raddau helaeth ar y capasiti gweithredu a ystyrir yn briodol ac yn ddiogel o ran COVID-19 ar y pryd.

**Goroesi yn y cyfamser**

1.6 Mae 43% o fusnesau yn disgwyl goroesi yn hirach na'r chwe mis nesaf, dywed 10% y gallant ond goroesi am gyfnod llai, mae 32% yn dweud 'mae'n dibynnu', ac nid yw 15% yn gwybod.

1.7 Mae rhai o'r rheiny nad yw eu goroesiad yn teimlo'n ddiogel eto yn nodi bod angen i'r diwydiant ailagor cyn yr haf, ac, i rai, yn gynt na hynny. Fel arall, maent yn adrodd bod angen mynediad parhaus at gymorth ariannol gan y llywodraeth arnynt.

## 2. Cefndir a Methodoleg

### Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

2.1 Cynlluniwyd Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru i roi adborth cyflym ar sut mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar gyfnodau allweddol yn ystod y flwyddyn.

2.2 Yr arolwg hwn yw'r chweched cam i ymchwilio i effaith y pandemig COVID-19 ar y diwydiant twristiaeth.

### Sut y cynhaliwyd yr arolwg?

2.3 Rydym wedi cynnal 801 o gyfweliadau dros y ffôn. Mae hyn yn golygu bod canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i ±3.5%. Yn gyffredinol, mae'r sampl yn adlewyrchu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru ac fe'i dangosir isod yn ôl sector a rhanbarth:

| Sector / Rhanbarth | Gogledd | Canolbarth | De-orllewin | De-ddwyrain | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Llety â gwasanaeth | 92 | 35 | 71 | 50 | **248** |
| Hunanddarpar | 93 | 56 | 116 | 62 | **327** |
| Meysydd carafanau / gwersylla | 49 | 27 | 30 | 9 | **115** |
| Hostelau | 4 | 4 | 2 | 4 | **14** |
| Atyniadau | 12 | 4 | 12 | 6 | **34** |
| Gweithredwyr gweithgareddau | 22 | 8 | 11 | 7 | **48** |
| Bwytai / tafarndai / caffis | 4 | 4 | 6 | 1 | **15** |
| **Cyfanswm** | **276** | **138** | **248** | **139** | **801** |

2.4 Mae 77% o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau nad ydynt wedi eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ar wahân i fwytai / tafarndai / caffis, atyniadau a gweithredwyr gweithgareddau, lle nad yw graddio'n berthnasol. Yn sgil y cyfyngiadau symud, mae wedi bod yn fwy anodd na'r arfer i siarad â gweithredwyr yn y sectorau bwytai / tafarndai / caffis, hostelau ac atyniadau. Mae hyn yn golygu y dylid bod yn ofalus iawn wrth edrych ar ganlyniadau gan y sectorau unigol hyn yn y cam hwn.

2.5 Cynhaliwyd pob cyfweliad dros y ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnesau rhwng 15 a 26 Chwefror.

# 3. Effaith COVID-19 Hyd yn Hyn

## Gosod staff ar ffyrlo

| **Cyfanswm y nifer a gyflogir** | **Cyfartaledd y staff sydd ar ffyrlo** *(Sampl: pob busnes sy'n cyflogi staff)* |
|---|---|
| 1 | 0.5 |
| 2 | 1.1 |
| 3 | 1.6 |
| 4 | 2.2 |
| 5 | 3.8 |
| 6 – 10 | 6.0 |
| 11 – 50 | 22.3 |
| Dros 50 | 87.5 |
| Ffigur cyffredinol | 9.2 |

Sampl: 801

**Cynnydd yn nifer y staff sydd ar ffyrlo ar hyn o bryd**

3.1 Ar gyfartaledd, mae 9.2 o bobl ym mhob busnes twristiaeth sy'n cyflogi staff ar ffyrlo ar hyn o bryd. Mae hyn llawer yn uwch nag yn ystod y cam diwethaf, pan oedd yn 2.8 ar gyfartaledd.

3.2 Mae'r cynllun ffyrlo wedi cadw llawer o swyddi a busnesau yn hyfyw, gan ganiatáu ar gyfer cadw sgiliau.

*"Mae ein holl staff bellach ar ffyrflo hyblyg.Maent yn gweithio un diwrnod yr wythnos.Rydym wedi bod yn talu 100% o'u cyflog iddynt oherwydd eu bod mor arbenigol yn yr hyn y maent yn ei wneud.Nid yw'n hawdd dod o hyd i staff fel hwnna felly penderfynon ni dalu'r 20% ychwanegol."*
Darparwr gweithgareddau, y De-ddwyrain

*"Os yw ffyrlo'n parhau, gallwn gadw ein holl staff"*
Hostel, y Gogledd

## Colledion refeniw

| *C3 "… faint o refeniw y collodd eich busnes yn 2020 yn sgil yr argyfwng COVID-19?"* | |
|---|---|
| Heb golli unrhyw refeniw | 3% |
| Hyd at £2,500 | 0% |
| £2,501 – £5,000 | 5% |
| £5,001 – £10,000 | 10% |
| £10,001 – £25,000 | 26% |
| £25,001 – £50,000 | 23% |
| £50,001 – £100,000 | 17% |
| £100,001 – £250,000 | 10% |
| £250,001 – £500,000 | 4% |
| £500,001 – £1,000,000 | 1% |
| Mwy na £1,000,000 | 2% |
| *Sampl* | *569* |

*Mae'r canlyniadau uchod yn peidio â chynnwys y rhai nad ydyn nhw'n gwybod neu mae'n well ganddyn nhw beidio ag ateb y cwestiwn sensitif hwn*

### Colledion refeniw ar gyfartaledd ar gyfer 2020 yn yr ystod £25,000 – £50,000

3.3 Mae'r golled ganolrif fesul busnes yn 2020 yn dueddol o fod tua phen isaf yr amrediad rhwng £25,000 a £50,000. Yn yr arolwg diwethaf yn 2020 (mis Medi), roedd y golled ganolrifol hyd yn hyn yn y flwyddyn yn dueddol o fod tua phen uchaf yr amrediad rhwng £10,000 a £25,000. Cynhaliwyd yr arolwg hwnnw wrth i gyfyngiadau symud lleol ddod i rym, a chyn i gyfyngiadau symud cenedlaethol Cymru a Lloegr ym mis Hydref a mis Tachwedd ddod â'r cyfle i'r diwydiant adennill refeniw a gollwyd yn ôl yn yr hydref i ben.

*"Dechreuom adeiladu enw da i ni ein hunain ac wedyn diflannodd y cyfan pan aethom yn ôl i'r cyfyngiadau symud [yn yr hydref]"*
Caffi, y De-orllewin

### Colledion uchel yn y sector llety â gwasanaeth

3.4 Nid yw'r meintiau sampl ar gyfer y rhan fwyaf o sectorau yn ddigon mawr i'w cymharu mewn modd dibynadwy oherwydd bod cymaint nad ydynt yn gallu ateb y cwestiwn neu'n amharod gwneud hyn. Fodd bynnag, nid yw colledion yn y sector hunanddarpar yn ymddangos i fod

mor uchel ag yn y sector llety â gwasanaeth. Roedd y golled ganolrifol ar gyfer busnesau hunanddarpar tua chanol yr amrediad rhwng £10,000 a £25,000, ond roedd y golled ganolrifol ar gyfer busnesau llety â gwasanaeth tua £50,000. Gan edrych at nifer y gweithwyr, eglurir y gwahaniaeth yn rhannol gan wahaniaeth ym maint y busnesau.

*"Roedd yn rhaid imi werthu fy nhŷ er mwyn fforddio cadw fy musnes"*
Llety â gwasanaeth, y Canolbarth

3.5 Mae'r golled ganolrifol fesul busnes yn gwahaniaethu yn ôl maint y busnes. Mae'r tabl isod yn dangos y golled ganolrifol fras, fesul busnes, yn ôl nifer y gweithwyr:

| Nifer y staff cyflogedig parhaol | Ystod colled ganolrifol fras mewn refeniw yn 2020 |
|---|---|
| Dim | £10,000 hyd at £25,000 |
| 1 – 5 | £50,000 hyd at £100,000 |
| 6 – 10 | £100,000 hyd at £250,000 |
| 11 – 50 | £250,000 hyd at £500,000 |
| Mwy na 50 | Dros £1,000,000 |

3.6 Dengys y tabl isod y gyfran o’r refeniw blynyddol arferol a gollwyd gan y rhai sydd wedi colli unrhyw refeniw:

| ***C4 “A pha gyfran fras o'ch refeniw blynyddol arferol y mae'r golled honno'n ei chynrychioli?”*** | |
|---|---|
| Colled o <16% | - |
| Colled o rhwng 16% a 20% | 2% |
| Colled o rhwng 21% a 30% | 2% |
| Colled o rhwng 31% a 40% | 7% |
| Colled o rhwng 41% a 50% | 15% |
| Colled o rhwng 51% a 60% | 18% |
| Colled o rhwng 61% a 70% | 14% |
| Colled o rhwng 71% a 80% | 18% |
| Colled o dros 80% | 24% |

Sampl: 508


**Collwyd tua dwy ran o dair o refeniw arferol yn 2020**

3.7 Roedd canolrif y golled a gofnodwyd o ganlyniad i'r argyfwng rhwng 61% a 70% o'r refeniw arferol. Collodd oddeutu un o bedwar busnesau dros 80% o'u refeniw blynyddol arferol.

3.8 Yn yr un modd â C3, nid yw'r meintiau sampl ar gyfer y rhan fwyaf o sectorau yn ddigon mawr i gymharu'r canlyniadau mewn modd dibynadwy, ar wahân i'r sectorau llety â gwasanaeth a hunanddarpar. Roedd golled ganolrifol mewn trosiant blynyddol ar gyfer busnesau hunanddarpar tua 60% o refeniw arferol, ond roedd dros 70% ar gyfer busnesau llety â gwasanaeth. Dangosodd sylwadau yn y cam diwethaf yr adenillodd rhai busnesau hunanddarpar incwm yn yr haf o archebion blaenorol a oedd wedi cael eu gohirio/canslo.

## Effeithiau pellach

**C5 "Ar wahân i golli refeniw a methu ag agor fel arfer, pa effeithiau eraill, os o gwbl, y mae Covid-19 wedi'u cael arnoch chi a'ch busnes?"** ***(Heb anogaeth)***



**Cyfnod dirboenus iawn i fod yn rhedeg busnes twristiaeth**

3.9 Yn ogystal â'r effaith ariannol uniongyrchol, mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar iechyd meddwl nifer o berchnogion busnesau twristiaeth. Mae oddeutu un o bob pump (19%) wedi colli eu cynilion eu hunain wrth geisio cynnal eu busnes. Mae'n ymddangos bod perchnogion yng Ngogledd Cymru wedi cael eu heffeithio'n sylweddol gan straen – mae 60% wedi nodi hyn.

*"Mae'n fusnes teuluol, a dyna'r unig reswm yr ydym wedi gallu dal ati.Mae wedi achosi llawer o straen, ffraeo a dadleuon."*
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

*"Roedd yn rhaid imi gymryd gwrth-iselyddion"*
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

3.10 Mae'n ymddangos mai un rheswm pam nad yw'r lefelau straen yn y diwydiant hyd yn oed yn uwch nag ydyn nhw yw oherwydd nad yw llawer o berchnogion yn dibynnu'n llwyr ar incwm gan dwristiaeth. Nid yw hyn yn golygu nad yw'r perchnogion wedi cael eu heffeithio gan straen, ond mae'n gwneud gwahaniaeth nad yw eu bywoliaeth i gyd dan fygythiad.

*"Gall ein busnes oroesi am gyfnod amhenodol gan dim ond arian poced inni ydyw.Nid yw ein henillion a'n bywoliaeth yn dibynnu arno."*
Llety hunanddarpar, y Canolbarth

**Anallu i gynllunio**

3.11 Dywed tua dau o bob pump (42%) eu bod wedi'u heffeithio gan yr anallu i gynllunio ymlaen llaw. Ar hyn o bryd, mae diffyg 'map trywydd' i Gymru yn ei gwneud yn anodd i rai gweithredwyr wybod beth i'w wneud gydag ymholiadau.

*"Rwy'n derbyn llawer o e-byst ynghylch archebion ond nad wyf yn gwybod beth i'w ddweud wrthynt gan nad oes gennym unrhyw ddyddiadau ailagor"*
Parc carafanau, y De-orllewin

**Oedi i welliannau**

3.12 Nid yw rhai gweithredwyr wedi cael y cyfle i fuddsoddi yn y busnes fel y gallent fel arfer, oherwydd diffyg arian, gormod o ansicrwydd, neu warchod.

*"Mae'n rhaid inni wneud gwaith adeileddol ond mae gennym ofn cael pobl yn yr adeilad. Mae wedi'i ohirio am flwyddyn.Rwy'n troi'n 80 ar ddiwedd y flwyddyn hon felly rwy'n ceisio osgoi cysylltiad â phawb."*
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

**Dod â phopeth i ben**


3.13 Mae'r pandemig wedi ysgogi rhai perchnogion i ymddeol yn gynt na'r disgwyl.

*"Wedi achosi ymddeoliad cynnar o'r gwely a brecwast"*
Llety â gwasanaeth, y Canolbarth

*"Penderfynon ni i beidio â masnachu rhagor a chau'r busnes.Roedd yn achosi llawer o straen i ni a chollom rai o'n cynilion ein hunain."*
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin

# 4. Archebion ar gyfer y Dyfodol

## Cymryd archebion




**Mae oddeutu dau fusnes o bob tri yn cymryd archebion**

4.1 Ar adeg ysgrifennu, mae busnesau twristiaeth o dan gyngor gan Lywodraeth Cymru, er na allant ailagor eto, gallant gymryd archebion ar gyfer y dyfodol ar eu menter eu hunain. Mae dau o bob tri (65%) yn gwneud hyn ar hyn o bryd, yn fwyaf nodedig yn y sector hunanddarpar, sydd y mwyaf ‘hunangynhwysol’ o'r holl sectorau llety ac yn debygol o fod ar flaen y ciw wrth ailagor.


4.2 Dywed rhai gweithredwyr nad ydynt am gael y drafferth o ohirio, canslo, ailarchebu, ad-dalu blaendaliadau ac ati fel y gwnaethant ei brofi y llynedd.

*"Fis Mawrth diwethaf, gwnaethom dreulio'r mis cyfan yn ad-dalu pobl, felly nid wyf am fentro cymryd archebion, rhag ofn bod yr un peth yn digwydd eto"*
Darparwr gweithgareddau, y Canolbarth

*“Ar hyn o bryd, rwyf wedi rhoi diwedd ar archebion hyd nes fy mod yn gwybod dyddiadau penodol gan y llywodraeth, fel nad oes rhaid imi eu canslo eto a siomi pobl.”*
Hostel, y De-ddwyrain

4.3 Fesul rhanbarth, mae tri o bob pedwar (75%) o weithredwyr Gogledd Cymru yn cymryd archebion ymlaen llaw. Mae hyn yn cymharu â chyfran is (50%) yn Ne-ddwyrain Cymru.

## Lefel archebion ymlaen llaw




*Gofynnwyd C7 i fusnesau sydd yn cymryd archebion ymlaen llaw*


**Mae dau weithredwr o bob tri sy'n cymryd archebion yn dweud bod lefelau'n is na'r arfer**

4.4 Dywed un o bob deg (10%) o weithredwyr sy'n cymryd archebion fod ganddynt fwy o archebion ymlaen llaw na'r arfer yr adeg hon o'r flwyddyn, ac mae gan 23% tua'r lefel arferol. Fodd bynnag, mae tua dwy ran o dair (67%) yn is na'r arfer. Mae archebion ymlaen llaw ar gyfer y pedwar rhanbarth yng Nghymru'n llawer is ar y cyfan. Rydym yn trafod y rhesymau nesaf o dan gwestiwn 8.

4.5 Y sectorau lle mae 'hunangynhwysiad' yn haws – meysydd carafanau a gwersylla, a hunanddarpar – yw'r unig sectorau sydd â nifer sylweddol o fusnesau'n dweud bod nifer eu harchebion ymlaen llaw yn uwch na'r arfer. Fodd bynnag, hyd yn oed yn y sectorau hyn, mae'r ffigurau'n llawer is ar y cyfan yn gyffredinol.

## Rhesymau ymddangosiadol am archebion ymlaen llaw fod yn is

**C8 "Pam ydych chi'n meddwl bod gennych chi lai o archebion ymlaen llaw na'r arfer?" *(Heb anogaeth)***




### Mae defnyddwyr yn aros am y tro

4.6 Heb unrhyw ddyddiad ailagor pendant ar gyfer unrhyw sector ar adeg y cyfweliad, mae'n ymddangos nad yw llawer o ddefnyddwyr yn ymrwymo i archebu eto.

> *“Bydd pobl fel arfer wedi archebu ar gyfer y Pasg erbyn hyn ond nid yw neb wedi gwneud hynny.Mae pobl yn aros i weld beth fydd yn digwydd ac maen nhw eisoes wedi cael profiad o golli blaendaliadau."*
> Llety â gwasanaeth, y Gogledd

> *"Mae pobl wedi cael llond bol gyda gohirio ac maent wedi canslo'n gyfangwbl.Mae pobl yn aros i gael caniatâd erbyn hyn cyn gwneud archebion."*
> Llety â gwasanaeth, y Gogledd

### Teimlir bod diffyg ‘map trywydd' clir i Gymru yn mygu gweithgarwch archebu

4.7 Dywed rhai gweithredwyr sydd â chysylltiadau yn y sector yn Lloegr fod busnesau twristiaeth yno yn elwa ar gael dyddiadau clir, tra bo gweithgarwch archebu yng Nghymru yn cael ei fygu oherwydd nad yw unrhyw un yn gwybod dyddiadau ailagor, ac – yn bwysig hefyd – nid yw ymwelwyr o Loegr yn gwybod pryd y caniateir iddynt ddod.

> *"Mae llawer o bobl eisiau gwneud pethau ym mis Ebrill ond nid yw Cymru yn rhoi map trywydd inni o hyd, felly mae'r Saeson yn ansicr a allant deithio i Gymru ai peidio.”*
> Darparwr gweithgareddau, y Canolbarth

> *“Nid oes gennym ddyddiad cadarn.Rwy'n credu bod pobl yn aros hyd nes bod dyddiad pendant."*

Parc carafanau, y Gogledd

*"Pan yn siarad â gwestai yn Lloegr ac maent wedi bod yn cael archebion gan fod mwy o syniad o fap trywydd. Dyna beth sy'n siomedig inni – nid oes map trywydd yng Nghymru.Mae pobl yn daer i gael mynd am seibiant ond bydd pawb yn mynd yn Lloegr hyd nes bod gennym rai dyddiadau pendant i ailagor.Rwy'n derbyn ymholiadau ond ni allaf ddweud unrhyw beth wrthynt gyda hyder."*

Llety â gwasanaeth, y Gogledd

**Colli farchnad benodol**

4.8 Mae rhai gweithredwyr yn cael eu heffeithio'n sylweddol gan yr oedi estynedig mewn marchnad bwysig benodol yn dychwelyd. Mae enghreifftiau'n cynnwys teithiau ysgolion ar gyfer darparwyr gweithgareddau, a phriodasau mawr a theithiau gwaith ar gyfer llety â gwasanaeth. Mae'n bosib y bydd y marchnadoedd hyn yn cymryd mwy o amser i adfer.

*“Roedden ni’n arfer cael priodasau i 250 o bobl. Ar hyn o bryd, gall fod yn ddeg yn unig.”*

Llety â gwasanaeth, y Gogledd


*“Ysgolion yw ein cwsmeriaid mwyaf ac mae'n ymddangos bod y mwyafrif o ysgolion yn cymryd eleni i ffwrdd”*

Darparwr gweithgareddau, y De-orllewin

*“Mae ein busnes yn arbenigo mewn lletygarwch a llety ar gyfer pobl sydd ag anableddau. Dyma'r rheswm yr ydym yn meddwl ein bod ni mor dawel ar hyn o bryd gan mai ein math o gwsmeriaid fydd y bobl olaf i fynd i unrhyw le yn ystod pandemig.”*

Parc carafanau, y De-orllewin

## Rhesymu ymddangosiadol ar gyfer pam mae archebion ymlaen llaw yn uwch




**Arwydd o'r hyn sydd i ddod?**

4.9 Mae nifer o weithredwyr sydd wedi derbyn lefelau uwch na'r arfer o archebion ymlaen llaw yn gweld y galw i gael mynd am seibiant. Gyda theithio rhyngwladol yn llai sicr o ran cyfyngiadau neu'r drafferth o drefnu o bosibl na theithio domestig, mae rhai gweithredwyr eisoes yn gweld gwyliau yn cael eu harchebu yng Nghymru a fyddai fel arfer yn cael eu cymryd dramor.

4.10 Bydd rhaid aros i weld a fydd y farchnad yn ffynnu eleni ai peidio; dylai'r cam ymchwil nesaf roi llun cliriach inni wrth i gyfyngiadau symud gael eu rhyddhau, os bydd hyn yn digwydd.

*“Mae archebion newydd yn archebion dros dro; pobl yn gweld syd mae hi … rwy'n credu y byddwn yn cael mewnlifiad enfawr o archebion ar gyfer mis Mehefin a mis Gorffennaf."*
Darparwr gweithgareddau, y De-orllewin

*“Maent i gyd yn rhuthro i archebu pan fydd y Prif Weinidog yn rhoi llygedyn o obaith ac wedyn maent i gyd yn rhuthro i ganslo pan fydd yn gwneud y gwrthwyneb.Mae'n wallgof.”*
Llety hunanddarpar, y Gogledd


*“Gan ein bod o dan gyfyngiadau symud o hyd, rydym ond yn gwneud archebion dros dro hyd nes ein bod yn gwybod y dyddiadau ailagor … ond rydym yn cael llawer o ymholiadau.Mae pobl yn awyddus iawn i gael gwyliau.”*
Parc carafanau, y De-orllewin

*"Unwaith yr ydym yn cael caniatâd i agor, rydym yn obeithiol y byddwn yn llawn bob nos – dyna beth ddigwyddodd y llynedd.Roedden yn gorfod gwrthod pobl bob dydd."*

Parc carafanau, y Gogledd

*“Rwy’n teimlo, os ydym ar agor ar gyfer yr haf hwn, y cawn ni haf da iawn oherwydd, y llynedd, gallwn fod wedi rhentu fy mwthyn ddeg gwaith drosodd gyda nifer yr ymholiadau.”*
Llety hunanddarpar, y De-orllewin

## Lefelau ailarchebu




### Cymysgedd o ailarchebion ac archebion newydd

4.11 Gwelodd 2020 lawer o gythrwfl o ran archebion yn cael eu hailarchebu ar gyfer dyddiadau yn y dyfodol, dim ond wedyn i rai o'r ailarchebion hynny gael eu haildrefnu eto wrth i Gymru a Lloegr fynd i mewn ac allan o gyfyngiadau symud, yn aml ar fyr rybudd ac nid o reidrwydd ym mhob ardal ar yr un pryd.

4.12 Y canlyniad yw y bydd 2021, pan all gweithredwyr ailagor, yn gweld cymysgedd o deithiau wedi'u hailarchebu ac archebion newydd. Dywed rhai fod 2022 yn dechrau edrych yr un peth. Y drafferth o drefnu ac ail drefnu yw un o'r rhesymau pam nad yw rhai gweithredwyr yn cymryd unrhyw archebion newydd hyd nes eu bod yn gwybod yn bendant pryd y gallant weithredu. Mae rhai'n credu dyma reswm hefyd pam nad ydynt wedi gweld llawer o archebion newydd.


*"Roeddwn i eisoes wedi gorfod creu dyddiadur ar gyfer 2022 ar gyfer ailarchebu achosion o ganslo. Nid wyf erioed wedi gorfod archebu mor bell â hynny i’r dyfodol o'r blaen.”*
Llety hunanddarpar, y Canolbarth

*"Mae'r rhan fwyaf o archebion wedi'u symud i fis Mawrth, mis Ebrill a mis Mai ac, erbyn hyn, mae'n rhaid imi eu trosglwyddo eto i 2022.Mae un ddynes wedi cael ei symud bum gwaith."*
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

*"Mae wedi bod yn hunllef gyda chanslo ac ailarchebu – anhrefn gwbl ddryslyd"*
Llety hunanddarpar, y Gogledd


## Archebion ymlaen llaw fesul mis

**C11 "Ar gyfer pa fisoedd mae gennych archebion yn 2021?"**




**C12 "Tua pa ganran o'ch capasiti sydd ar gael sydd wedi'i archebu ar gyfer ...? Wrth 'gapasiti sydd ar gael' rydym yn golygu'r lefel capasiti rydych chi'n meddwl y gallwch chi weithredu arni."**

***Dangosir lefelau deiliadaeth bras wedi'u harchebu***




*Gofynnwyd C11 a C12 i fusnesau sy'n cymryd archebion.Mae achosion o 'ddim yn gwybod' wedi'u heithrio o'r canlyniadau ac mae'r canrannau wedi cael eu sylfaenu eto.*

**Archebion eithaf sylweddol ar gyfer yr haf; llawer o ansicrwydd tan hynny**

4.13 Yr agosaf at yr haf, y mwyaf o archebion mae'r busnesau eisoes wedi'i sicrhau. Mae'r dyfodol agos – y Pasg yn fwyaf nodedig – yn llawer mwy distaw fel mae pethau'n sefyll ar hyn o bryd. Mae archebion presennol ar gyfer y dyfodol agos yn symud at gael eu canslo'n gyflym.

*"Rydym yn brysur iawn ar gyfer mis Ebrill ond bydd yn rhaid inni ganslo'r holl archebion hynny"*
Darparwr gweithgareddau, y Gogledd

*"Rwyf wedi treulio'r ddau neu dri diwrnod diwethaf yn newid dyddiadau, ymateb i ymholiadau, a chanslo a gohirio archebion.Mae pobl wedi drysu … mae gen i ddwy archeb hirsefydlog iawn ar gyfer y Pasg ond mae'r ddau barti yn gwybod ei bod yn amheus a allant ddod ai peidio."*
Llety hunanddarpar, y Gogledd

*"Yn y tymor byr, mae gennym lai o archebion ond, yn y tymor canolig i'r hir dymor, mae gennym fwy na'r arfer."*
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

*"Mae Lloegr wedi rhoi'r gorau ar y Pasg. Rwy'n gobeithio nad yw Cymru'n gwneud yr un peth."*
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

**Gwahaniaethau yn ôl sector a rhanbarth**

4.14 Ar hyn o bryd, mae lefelau deiliadaeth wedi'u harchebu yn llawer uwch yn y sector hunanddarpar na'r sector llety â gwasanaeth. Ar y brig ym mis Awst, mae tua 54% o'r capasiti y gellir ei archebu mewn llety hunanddarpar wedi'i gymryd eisoes, o'i gymharu â thua 24% o gapasiti y sector llety â gwasanaeth y gellir ei archebu.

4.15 De-orllewin Cymru yw'r mwyaf poblogaidd o'r pedwar rhanbarth yn yr haf – gan gyrraedd brig o oddeutu 49% ym mis Awst. Mae hyn yn rhannol gysylltiedig â'r gyfran fawr o weithredwyr hunanddarpar yn sampl y rhanbarth.

**Tuedd tuag ar arosiadau hirach**

4.16 Mae rhai gweithredwyr yn sylwi yr archebir arosiadau hirach ar gyfer yr haf, gyda peth tystiolaeth bod hwn yn disodli'r prif wyliau tramor arferol. Mae rhai gweithredwyr hunanddarpar yn adrodd nad yw eu hasiant archebu yn caniatáu arosiadau byr rhagor.

*"Mae ein hasiant ond yn cymryd arosiadau am wythnos yn lle arosiadau byrrach eleni"*
Llety hunanddarpar, y Gogledd

*"Mae un teulu sydd fel arfer yn aros gyda ni am bythefnos ac yn mynd dramor am ail hanner mis Gorffennaf ond maent wedi archebu i aros gyda ni am y mis cyfan"*

Parc carafanau, y Gogledd

*“Mae pobl yn archebu am gyfnodau hirach, felly rhwng pump a saith diwrnod yn lle tri"*
Llety hunanddarpar, y Canolbarth

*"Roedd llawer o seibiannau byr ar y funud olaf y llynedd ond, eleni, mae pobl yn archebu wythnos, pythefnos hyd yn oed, ar gyfer gwyliau go iawn”*
Llety hunanddarpar, y Gogledd

*"Y prif beth yw na all pobl fynd dramor ac mae pawb eisiau mynd ar wyliau"*
Parc carafanau, y Gogledd

**Mae nifer o bobl yn gofyn am bolisïau ad-dalu**

4.17 Dywed rhai gweithredwyr mai'r peth cyntaf y mae ymholwyr yn gofyn amdano yw a fyddant yn colli unrhyw arian os yw rheolau COVID yn golygu bod yn rhaid canslo eu taith. Yn gyffredinol, mae gweithredwyr naill ai yn cytuno i ad-dalu blaendaliadau os oes angen, neu nad ydynt yn gofyn am flaendaliadau yn y lle cyntaf. Achosodd y llynedd lawer o straen i weithredwyr wrth iddynt ad-dalu blaendaliadau.

*“Mae pawb sy'n ymholi yn gofyn am ad-daliadau"*
Parc carafanau, y Gogledd

*"Mae pobl yn gofyn am ein polisïau canslo. Ar hyn o bryd, rydym yn cynnig ad-daliadau os yw cyfeiriad cartref ein hymwelydd neu ein cyfeiriad ein hunain wedi'i roi o dan gyfyngiadau symud gan y llywodraeth."*
Llety hunanddarpar, y Canolbarth

*“Mae pobl yn amharod ymrwymo. Nid ydynt yn anfon eu blaendal o 20%.Mae'n rhaid inni fod yn deg a newid ein polisi blaendal."*
Llety hunanddarpar, y Gogledd

**Cynnydd mewn archebion gan deuluoedd**

4.18 Mae rhai gweithredwyr yn gweld cynnydd yn nifer y teuluoedd sy'n gwneud archebion, gan gynnwys teuluoedd estynedig.

*“Rydym wedi gweld mwy o archebion gan deuluoedd estynedig. Mae'n bosib bod hyn yn gysylltiedig â theuluoedd yn methu â gweld eu gilydd dros y Nadolig."*
Llety hunanddarpar, y De-orllewin


*“Mae gen i lawer mwy o bobl sydd eisiau aros yn hirach, fel pum diwrnod yn lle tri. Mae mwy o deuluoedd eisiau archebu hefyd."*
Llety â gwasanaeth, y De-orllewin


**Mae amseriad ailagor sectorau twristiaeth o'i gymharu â'i gilydd yn ystyriaeth bwysig**

4.19 Mae rhai busnesau'n teimlo eu bod ar flaen y ciw ar gyfer ailagor, neu'n agos ato, ond ni allant elwa ar ailagor hyd nes bod atyniadau a lleoedd bwyta hefyd yn ailagor yn eu hardal.

> *"Os ydynt yn caniatáu i lety â gwasanaeth agor yn gyntaf, ond dim y tafarndai a bwytai, ni fydd pobl eisiau dod.*Man a man inni aros ar gau … sylwais ein bod yn dawel iawn tan 10 Awst y llynedd, ond cyn gynted ag yr agorwyd y tafarndai, daeth yr archebion."
>
> Llety â gwasanaeth, y Gogledd

## 5. Goroesi a Rhagolwg




**Mae'r rhagolwg ar gyfer goroesi yn llai sicr nag yn y cam blaenorol**

5.1 Mae 43% o fusnesau'n disgwyl goroesi yn hirach na'r chwe mis nesaf. Mae hyn yn gyfran lawer yn is nag ym mis Medi (73%), gyda llawer o fusnesau bellach yn y grŵp 'mae'n dibynnu'. Roedd uchafbwynt gobaith ar ddiwedd yr haf / dechrau'r hydref, pan oedd y mwyafrif o fusnesau ar agor ac yn derbyn incwm gan gwsmeriaid.

**Mae angen ailagor erbyn y haf; mae rhai yn dweud hyd yn oed ynghynt**

5.2 Mae goroesi i lawer yn dibynnu ar pryd y gallant ailagor. Ni all y diwydiant twristiaeth fforddio haf byrrach arall, ac mae rhai'n dweud bod angen yr arian arnynt yn gynt. Fel arall, mae angen mwy o gyllid gan y llywodraeth – sydd wedi'i werthfawrogi'n fawr hyd yn hyn.

*"Pe bai pethau'n agor, gallen ni oroesi, ond os nad ydym yn gweithredu ym mis Mehefin, ni fyddwn yn hyfyw rhagor"*
Darparwr gweithgareddau, y De-ddwyrain

*"Ni allen fod wedi goroesi heb gymorth ariannol gan y llywodraeth ac, yn y dyfodol, os nad oes datblygiad cadarnhaol gyda'r pandemig hwn, byddwn yn dibynnu unwaith eto ar ba bynnag gyllid gan y llywodraeth sydd ar gael"*
Atyniad, y De-ddwyrain

*"Dim ond oherwydd y cyllid yr wyf wedi'i dderbyn y gallaf oroesi trwy hyn"*
Darparwr gweithgareddau, y De-orllewin

*"Os na fyddwn ar agor o fewn y pedwar mis nesaf, byddwn yn dod i ben.Roedd gennym gronfa arian fawr wrth gefn ac mae'r cyfan wedi mynd."*
Atyniad, y De-ddwyrain

*"Rydym yn hynod o ddiolchgar am y cymorth yr ydym wedi'i gael gan Gyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru.Hebddo, byddem wedi gorfod gwerthu'r busnes."*
Llety hunanddarpar, y Gogledd

**Mae gan rai mathau penodol o fusnes orbenion mawr na ellir eu hosgoi**

5.3 Mae cymorth ariannol, yn enwedig y cynllun ffyrlo, wedi cadw nifer o fusnesau yn mynd. Fodd bynnag, mae gan rai gostau parhaus na allant eu hosgoi ac nid ydynt yn cael eu cwmpasu'n ddigonol gan arian grant; mae angen i'w staff weithio hefyd. Mae enghreifftiau'n cynnwys mathau penodol o atyniad neu ddarparwr gweithgareddau sy'n cartrefu anifeiliaid y mae angen eu bwydo, neu adeiladau a thiroedd hanesyddol sydd angen eu cadw a chynnal. Mae'r mathau hyn o fusnes wedi cael eu taro'n arbennig o galed gan yr argyfwng oherwydd na allant stopio gweithredu'n gyfan gwbl.

*"Nid yw'r grantiau'n ddigonol ym fy maes i – y byd marchogol.Mae arnaf angen i'm staff fod yn gweithio.Mae angen bwydo'r ceffylau o hyd.Mae ein gorbenion yn enfawr."*
Darparwr gweithgareddau, y De-ddwyrain

**Ni fydd rhai yn cael eu symud**

5.4 Mae rhai busnesau twristiaeth wedi bod yn rhedeg ers degawdau neu hyd yn oed wedi cael eu pasio trwy genedlaethau o'r teulu. Bydd yn cymryd llawer i orfodi rhai gweithredwyr i roi'r gorau iddi.

*"Rwyf wedi bod yma ers dros 30 mlynedd ac nid wyf yn mynd i adael i'r peth hwn ein cau ni i lawr!"*
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

**Gwahaniaethau yn ôl sector**

| Hyd disgwyliedig goroesiad busnes | Sector | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Llety â gwasanaeth | Hunanddarpar | Meysydd carafanau / gwersylla | Hostelau | Atyniadau | Darparwyr gweithgareddau | Bwytai / tafarndai / caffis |
| Hyd at 6 mis | 14% | 8% | 6% | 14% | 9% | 15% | 7% |
| Mwy na 6 mis | 32% | 52% | 40% | 14% | 35% | 56% | 53% |
| Mae'n dibynnu | 36% | 27% | 37% | 43% | 41% | 21% | 27% |
| Ddim yn gwybod | 18% | 13% | 17% | 29% | 15% | 8% | 13% |
| *Sampl:* | *248* | *327* | *115* | *14* | *34* | *48* | *15* |

5.5 Mae'r sector hunanddarpar yn gweld incwm o archebion ymlaen llaw wrth inni nesáu at yr haf. Nid oes gan y sector llety â gwasanaeth yr un lefel o archebion ymlaen llaw eto, ac adlewyrchir hyn yn y rhagolwg mwy ansicr ymhlith gweithredwyr. Ond gallai hyn newid yn gyflym.

*"Rydym yn aros i gael dylifiad pan fyddwn yn cael caniatâd i ailagor"*
Llety â gwasanaeth, y Gogledd

# Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2021

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich math o fusnes orau?

- Llety â gwasanaeth ❑
- Llety hunan arlwyo ❑
- Maes carafannau / pebyll ❑
- Hostel ❑
- Amgueddfa ❑
- Atyniad ❑
- Cynal gweithgaredd ❑
- Bwyty / tafarn / caffi ❑

Q1 Faint o staff parhaol â thâl y mae eich busnes yn eu cyflogi ar hyn o bryd, ac eithrio'r perchnogion?

- Dim ❑
- 1 ❑
- 2 ❑
- 3 ❑
- 4 ❑
- 5 ❑
- 6 i 10 ❑
- 11 i 50 ❑
- 51 i 100 ❑
- 101 i 250 ❑
- Mwy na 250 ❑

Q2 A faint o staff parhaol â thâl sydd ar ffyrlo ar hyn o bryd?

- Dim ❑
- 1 ❑
- 2 ❑
- 3 ❑
- 4 ❑
- 5 ❑
- 6 i 10 ❑
- 11 i 50 ❑
- 51 i 100 ❑
- 101 i 250 ❑
- Mwy na 250 ❑

Q3 A fyddai ots gennych roi syniad inni o faint o incwm y mae eich busnes wedi'i golli yn 2020 oherwydd argyfwng Covid-19?

- Heb golli unrhyw incwm ❑
- Hyd at £1,000 ❑
- £1,001 - £2,500 ❑
- £2,501 - £5,000 ❑
- £5,001 - £10,000 ❑
- £10,001 - £25,000 ❑
- £25,001 - £50,000 ❑
- £50,001 - £100,000 ❑
- £100,001 - £250,000 ❑
- £250,001 - £500,000 ❑
- £500,001 - £1,000,000 ❑
- Mwy na £1,000,000 ❑
- Ddim yn gwybod ❑

Q4 Ac yn fras pa gyfran o'ch refeniw blynyddol arferol y mae'r golled honno'n ei gynrychioli?

- 2% neu lai ❑
- 3 - 5% ❑
- 6 - 10% ❑
- 11 - 15% ❑
- 16 - 20% ❑
- 21 - 30% ❑
- 31 - 40% ❑
- 41 - 50% ❑
- 51 - 60% ❑
- 61 - 70% ❑
- 71 - 80% ❑
- Dros 80% ❑
- Ddim yn gwybod ❑

Q5 Ar wahân i golli refeniw a methu ag agor fel arfer, pa effeithiau eraill, os o gwbl, y mae Covid-19 wedi'u cael arnoch chi a'ch busnes?

Paid a annog

- Wedi gorfod diswyddo staff ❑
- Straen wedi'i achosi i berchnogion ❑
- Straen wedi'i achosi i weithwyr ❑
- Ddim yn gallu gynllunio ymlaen llaw ❑
- Heb allu buddsoddi yn y busnes ❑
- Pobl sy'n gweithio yma wedi dal y feirws ❑
- Wedi stopio ceisio gweithredu nes bod y pandemig yn drosodd ❑
- Wedi addasu i farchnad newydd (e.e. llety ar gyfer gweithwyr iechyd, twristiaid sy'n gorfod cwarantin, ymwelwyr anabl ac ati) ❑
- Colli ein cynilion ❑
- Wedi gorfod cymryd ar ddyled ❑
- Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr domestig yn ystod cyfnodau o fod ar agor ❑
- Colli ymwelwyr tramor yn ystod cyfnodau o fod ar agor ❑
- Colli staff i sectorau eraill / colli sgiliau allweddol ❑
- Arall ❑
- Dim effaith arall ❑

*(Os diswyddir staff)* __________

*Faint o staff ydych chi wedi gorfod eu diswyddo?*
*(Arall)*

*Nodwch effaith(au) eraill*

Q6 A ydych ar hyn o bryd yn cymryd unrhyw archebion ymlaen llaw, gan gynnwys unrhyw rai sydd wedi'u hail-archebu o 2020?

- Ydw ❑
- Na ❑

Q7 Faint o archebion ymlaen llaw sydd gennych chi ar gyfer 2021 o'i gymharu â nifer yr archebion y byddech chi fel arfer yn eu cael ar yr adeg hon o'r flwyddyn?

- Mwy na'r arfer ❑
- Tua'r un peth â'r arfer ❑
- Llai na'r arfer ❑
- Ddim yn gwybod ❑

Q8 Pam ydych chi'n meddwl bod gennych chi lai o archebion ymlaen llaw na'r arfer?

*Annog os oes angen*

- Nid ydym yn mynd ati i hyrwyddo'r busnes ar hyn o bryd ❑
- Mae pobl yn ofalus am archebu ❑
- Mae llai o gapasiti yn cyfyngu faint o archebion y gallwn eu cymryd ❑
- Ddim yn gwybod ❑
- Arall ❑

*Nodwch eich ymateb 'arall'*

Q9 Pam ydych chi'n meddwl bod gennych chi fwy o archebion ymlaen llaw nag arfer?

*Annog os oes angen*

- Lefel sylweddol o ail-archebion o gansladau blaenorol ❑
- Mae pobl yn ysu am fynd ar wyliau ❑
- Ymwelwyr y DU yn archebu yng Nghymru yn lle archebu dramor ❑
- Ddim yn gwbod ❑
- Arall ❑

*Nodwch eich ymateb 'arall'*

Q10 Yn fras pa gyfran o'ch archebion yn ail-archebion o gansladau blaenorol?

- 100% ❑
- 75 - 99% ❑
- 50 - 74% ❑
- 25 - 49% ❑
- Llai na 25% ❑
- Ddim yn gwybod ❑

Q11 Ar gyfer pa fisoedd mae gennych archebion yn 2021?

| | Ie | Na | Dddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Mawrth | ❑ | ❑ | ❑ |
| Ebrill | ❑ | ❑ | ❑ |
| Mai | ❑ | ❑ | ❑ |
| Mehefin | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gorffennaf | ❑ | ❑ | ❑ |
| Awst | ❑ | ❑ | ❑ |
| Y tu hwnt i fis Awst | ❑ | ❑ | ❑ |

Q12 Tua pa ganran o'ch capasiti sydd ar gael sydd wedi'i archebu ar gyfer ...? Wrth 'gapasiti sydd ar gael' rydym yn golygu'r lefel capasiti rydych chi'n meddwl y gallwch chi weithredu arni.

*Y misoedd yn cyfeirio o atebion uchod*

| | Llai na 10% | 11 - 25% | 26 - 50% | 51 - 75% | 76 - 99% | 100% | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mawrth | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Ebrill | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Mai | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Mehefin | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Gorffennaf | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |
| Awst | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ | ❑ |

Q13 A oes unrhyw dueddiadau archebu rydych wedi sylwi am 2021 sy'n wahanol i'r arfer?

*(Annog os oes angen: gwahanol fath o ymwelydd (e.e. mwy neu lai o bobl hyn), arosiadau hirach neu fyrrach, mwy ymlaen llaw / mwy y funud olaf ac ati, ymholiadau am bolisiau canslo ac ati)*

*Cyfwelydd: cofnodwch hefyd unrhyw sylwadau defnyddiol am gymryd neu beidio a chymryd archebion*

____________________________________________________________________________

____________________________

Q14 *Sawl mis arall ydych chi'n meddwl y gall eich busnes oroesi?*

- Llai nag 1 mis ❑
- 1 mis ❑
- 2 mis ❑
- 3 mis ❑
- 4 mis ❑
- 5 mis ❑
- 6 mis ❑
- Mwy na 6 mis ❑
- Mae'r cyfan yn dibynnu ar rai ffactorau ❑
- Ddim yn gwybod ❑

Q15 Cyfwelydd: cofnodwch unrhyw sylwadau defnyddiol a wnaed yn ystod y cyfweliad

____________________________________________________________________________

____________________________